Arfarniad o’r defnydd a wneir gan awdurdodau lleol ac ysgolion o adnoddau y trefnwyd eu bod ar gael gan y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth yng Nghymru

Estyn
Rhagoriaeth i bawb.....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2006: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Cefndir 1
Y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth 3

Prif ganfyddiadau **5**

Defnyddio'r cyllid **7**

Canu 8
Gwersi ar gyfer disgyblion iau 8
Ymestyn ystod y gwersi offerynnol 8
Digwyddiadau arbennig 8

Effaith y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth **10**

Niferoedd cynyddol 10
Cyflenwadau o offerynnau cerdd 10
Disgyblion iau 11
Disgyblion sydd dan anfantais a grwpiau sy'n agored i niwed 11
Disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol 11
Ystod ehangach o gerddoriaeth 11
Y dimensiwn cymunedol 12
Mynediad lleol 12
Monitro ac arfarnu 12

Effaith y CDC yn y tymor hir **14**

Effaith y cyllid ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth **16**

Atodiad 1: Enghreifftiau o safonau a darpariaeth rhagorol

Atodiad 2: Data o 'Making Music 2000' (Bwrdd Cysylltiedig yr Ysgolion Cerdd Brenhinol) **17**
21

Cyflwyniad

1 Mae'r cylch gorchwyl gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2005 – 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Estyn ddarparu arfarniad o'r defnydd a wneir gan awdurdodau lleol ac ysgolion o adnoddau y trefnwyd eu bod ar gael trwy'r Gronfa Datblygu Cerddoriaeth (CDC).

2 Yn ystod tymhorau'r haf a'r hydref yn 2005, cynhaliodd arolygwyr Estyn arolwg o'r defnydd o adnoddau y trefnwyd eu bod ar gael gan y CDC a'i effaith ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Roedd sail y dystiolaeth yn cynnwys:

- Ceisiadau gan awdurdodau addysg lleol (AALlau) ar gyfer cronfeydd CDC ac arfarniadau Estyn o'r ceisiadau hyn;
- Adroddiadau arolygu AALl Estyn ar wasanaethau cerddoriaeth, ac adroddiadau ysgol ac arolwg perthnasol eraill;
- arfarniad o effaith y Gronfa gan Gymdeithas Addysg Gerdd Awdurdodau Cymru (CAGAC);
- data a ddarparwyd gan wasanaethau cerddoriaeth AALlau;
- cyfweliadau â swyddogion AALlau a rheolwyr gwasanaethau cerddoriaeth ysgolion ac AALlau;
- ymweliadau ag ysgolion a chanolfannau cerdd i arolygu sampl addas o'r ystod o ddarpariaeth sydd ar gael;
- trafodaethau â phenaethiaid, athrawon dosbarth a thiwtoriaid cerddoriaeth; a
- thrafodaethau â dysgwyr a'u rhieni.

3 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg.

Cefndir

4 Mae creu cerddoriaeth yn dod â llawer o fanteision i ddysgu, datblygiad a lles disgyblion. Mae manteision cynhenid creu cerddoriaeth yn cynnwys:

- pleser emosiynol a seicolegol canu neu chwarae offeryn, naill ai ar eu pen eu hunain neu fel rhan o ensemble; ac
- ymdrechu at welliant a rhagoriaeth perfformiad trwy ymarfer fel unigolyn neu mewn grŵp, a'r ymdeimlad o gyflawniad a ddaw yn ei sgil.

5 Mae creu cerddoriaeth hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu:

- hunan-barch a hyder;

- medrau personol a chymdeithasol, gan gynnwys hunanddisgyblaeth a rheoli amser; a

- medrau allweddol gwella'ch dysgu a'ch perfformiad eich hun, datrys problemau a gweithio gydag eraill.

6 Gellir trosglwyddo'r medrau a'r priodoleddau personol a nodwyd uchod i feysydd dysgu a datblygu eraill. Mae yna lawer o dystiolaeth bod yr hunan-barch a'r hyder sy'n cael eu meithrin gan greu cerddoriaeth yn llwyddiannus yn cael eu hadlewyrchu yng ngwaith disgyblion mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm a'u bod yn cael effaith gadarnhaol ar eu cyflawniad.

7 Mae cerddoriaeth yn cyfrannu'n sylweddol at economi'r Deyrnas Unedig. Yn 2002, cyhoeddwyd adroddiad gan y Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol[1] ar gyfraniad economaidd busnes cerddoriaeth y DU. Pennodd yr adroddiad fod gwerth cyfanswm y gwariant domestig ar gerddoriaeth ychydig yn llai na £5 biliwn yn 2000, gan arwain at gyfraniad i'r economi o ryw £3.6 miliwn. Amcangyfrifwyd bod enillion tramor yn werth tua £1003 miliwn, gan gynhyrchu gwarged net o £435 miliwn. Yn 2000, roedd cyflogaeth amcangyfrifiedig yn niwydiant cerddoriaeth y DU dros 125,000 (CALl).

8 Dangosodd adroddiad cynharach[2] fod tua thri chwarter y disgyblion sy'n cael gwersi offerynnau cerdd yn dibynnu ar eu hysgol am y gwersi hyn, a bod y gweddill yn cael gwersi preifat neu gymysgedd o wersi yn yr ysgol a gwersi preifat. Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at y dirywiad yn y berthynas rhwng dosbarth cymdeithasol a chreu cerddoriaeth yn y cyfnod o 1993 i 1999. Ym 1999, roedd llai o ddisgyblion a oedd yn chwarae offerynnau cerdd o deuluoedd yn nosbarthiadau cymdeithasol A a B ac roedd niferoedd cynyddol o'r disgyblion hyn o deuluoedd yn nosbarthiadau cymdeithasol C2, D ac E. Erbyn 1999, roedd niferoedd y disgyblion hyn wedi'u dosbarthu'n deg ar draws y grwpiau cymdeithasol, ond gyda chynrychiolaeth ychydig yn uwch o ddosbarthiadau A a B nac o grwpiau eraill.

9 Hyd nes yn ddiweddar, roedd canran y disgyblion yng Nghymru sy'n derbyn gwersi arbenigol ar offeryn cerdd yn uwch nag yn Lloegr. Yng nghanol y 1980au, er enghraifft, mewn sawl AALl yng Nghymru, roedd cyfran y disgyblion a oedd yn dysgu chwarae offeryn cerdd fwy na dwywaith cyfartaledd y DU.

10 Bu gostyngiad arwyddocaol mewn gwasanaethau cerddoriaeth AALl yn ystod degawd olaf yr ugeinfed ganrif. Y ddau brif ffactor a oedd yn cyfrannu at y gostyngiad hwn oedd dirprwyo cyllidebau i ysgolion o dan reoliadau rheolaeth leol ysgolion (RhLY) ac ad-drefnu llywodraeth leol, a greodd 22 awdurdod unedol yng Nghymru i ddisodli'r wyth cyngor sir a oedd yn bodoli'n flaenorol. Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau a oedd newydd eu creu yn rhy fach i allu cynnal gwasanaethau cerddoriaeth ar y raddfa oedd wedi bodoli lle'r oedd dim ond wyth AALl mawr. Gwnaeth llawer o'r awdurdodau newydd, ond nid pob un, drefniadau addas i gydgyfrannu adnoddau gydag AALlau cyfagos i ddarparu gwasanaeth cerddoriaeth ar y cyd. Fodd bynnag, roedd yr adnoddau y trefnwyd eu bod ar gael gan y cynghorau cyfrannog yn aml yn llai na'r rheiny a ddarparwyd yn flaenorol, yn enwedig

[1] 'Counting the Notes' The economic contribution of the UK music business. Adroddiad gan y Cyngor Cerddoriaeth Cenedlaethol, Tachwedd 2002

[2] 'Making the Music 2000,' Bwrdd Cysylltiedig yr Ysgolion Cerdd Brenhinol

pan oeddent yn disgwyl y byddai ysgolion yn gwneud cyfraniad ariannol at y gwasanaeth.

11 Erbyn diwedd y 1990au, roedd yn dod yn amlwg mewn llawer o rannau o Gymru bod y cyfle i chwarae offeryn cerdd yn cael ei gyfyngu fwyfwy i ddisgyblion yr oedd eu rhieni, neu eu hysgolion, yn barod i wneud cyfraniad ariannol at gost y gwersi. Mewn rhai awdurdodau yn unig y darparwyd cyfleoedd o'r fath, am ddim, i ddisgyblion o gefndiroedd a oedd yn llai breintiedig yn ariannol.

Y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth

12 Ym mis Ionawr 1999, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru sefydlu'r Gronfa Datblygu Cerddoriaeth (CDC) yng Nghymru. Byddai'r gronfa'n rhoi £8 miliwn i gefnogi gwasanaethau cerddoriaeth yn y 22 AALl yng Nghymru dros gyfnod o dair blynedd o fis Ebrill 1999 i fis Mawrth 2002. Roedd y cyllid yn cynnwys £6.5 miliwn gan Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH) a £1.5 miliwn gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Prif amcan y gronfa oedd cefnogi ac ymestyn y cyfleoedd mewn cerddoriaeth sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc y tu allan i'r cwricwlwm.

13 Roedd nodau'r CDC wedi'u hamlinellu fel a ganlyn:

"Nod y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth yw cynnal a gwella cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu medrau cerddorol, beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol neu ble bynnag maent yn byw. Mae wedi'i chynllunio i roi cyfleoedd y tu allan i'r cwricwlwm ffurfiol sy'n galluogi disgyblion o bob safon a gallu i ymgeisio at ragoriaeth a chyflawni eu potensial cerddorol. Ei nod yw darparu fframwaith hyblyg i gefnogi AALlau wrth ddatblygu, o'u sefyllfaoedd unigol ar y sbectrwm darpariaeth, tuag at nodau cyffredin".

14 Amlinellwyd gweledigaeth eang y gronfa yn y ddogfen ymgynghori "Y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth: Ymestyn Cyfleoedd ar gyfer Pobl Ifanc" a gyhoeddwyd gan Adran Addysg y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Hydref 1999.

15 Roedd disgwyl i'r CDC gefnogi:

- darpariaeth gwersi ac offerynnau mewn ysgolion;
- datblygu pyramid o weithgareddau a digwyddiadau cerddorol fel cerddorfeydd ieuenctid, bandiau pres ieuenctid, corau ieuenctid, ac ensembles cerddorol eraill; a
- hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc o bob gallu.

16 Darparwyd y CDC am dair blynedd yn unig, ond yn dilyn cynrychiolaethau o awdurdodau lleol a chyfranogion eraill, cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymestyn y cyfnod cyllid i flynyddoedd ariannol 2002-2003 a 2003-2004. Nid oedd y cyfraniad cyfatebol gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gael ar ôl y drydedd flwyddyn. Ym mis Ebrill 2004, parhawyd â CDC am flwyddyn arall fel rhan o'r Gronfa Ysgolion Gwell (CYG), ond lleihawyd y maint oedd ar gael i awdurdodau. Er bod cyllid CYG yn llai na'r cyllid gan GCAH, cynyddodd cyllid cyffredinol llywodraeth leol yn

sylweddol yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau felly'n gallu cynnig cyllid ychwanegol i'r gwasanaethau cerddoriaeth i wneud iawn am y gostyngiad mewn dyraniadau CYG, er bod y cyfansymiau ychwanegol yn amrywio. Ym mis Ebrill 2005, trosglwyddwyd y cyllid a ddarparwyd trwy'r CDC i drefniant refeniw heb ei neilltuo y Grant Cynnal Refeniw, gan roi mwy o ryddid i awdurdodau lleol i bennu eu blaenoriaethau cyllido'u hunain. O'r dyddiad hwnnw, ychydig iawn o awdurdodau a gyfatebodd dyraniad cyllid blwyddyn derfynol y CDC, a gwnaeth yr holl wasanaethau doriadau yn eu darpariaeth.

Prif ganfyddiadau

- Gwariwyd cyllid yn briodol wrth gefnogi ystod addas o wasanaethau cerddoriaeth. Cafodd effaith sylweddol yn y tri maes sy'n gymwys am gyllid[3].

- Mewn llawer o AALlau, mae nifer y disgyblion a'r bobl ifanc sydd â mynediad at ddarpariaeth cerddoriaeth wedi cynyddu'n sylweddol.

- Mae ystod y gweithgareddau cerddorol a ddarperir gan y gwasanaethau wedi cynyddu'n sylweddol mewn AALlau mwy.

- Mae awdurdodau llai, neu'r rheiny sydd â lefelau mwy sylfaenol o ddarpariaeth ar ddechrau'r CDC, wedi cyfuno ystod lai o weithgareddau.

- Mae safonau perfformiad wedi gwella – mae llawer o ddisgyblion yn dechrau dysgu'n gynharach ac mae parhad a dilyniant gwell yn eu datblygiad cerddorol.

- Mae mwy o ddisgyblion yn ennill cymwysterau mewn cerddoriaeth, gan gynnwys cymwysterau ymarferol a theori Bwrdd Cysylltiedig yr Ysgolion Cerdd Brenhinol a byrddau arholi eraill.

- Mae niferoedd y disgyblion sy'n dilyn cyrsiau cerddoriaeth a thechnoleg cerddoriaeth mewn TGAU, lefel UG a Safon Uwch, wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod cyfnod y CDC. Gellir priodoli o leiaf rywfaint o'r niferoedd cynyddol i'r cyfleoedd ehangach y trefnwyd eu bod ar gael trwy'r CDC.

- Lle mae darpariaeth cerddoriaeth wedi cynyddu, cafodd effaith gadarnhaol ar fywyd ac ethos yr ysgolion ac ar gyflawniad disgyblion, nid yn unig mewn cerddoriaeth, ond hefyd yn eu gwaith arall ar draws y cwricwlwm.

- Ledled Cymru, mae cymunedau wedi elwa ar weithgareddau a ariennir gan y CDC. Mae rhieni a ffrindiau dysgwyr ifanc wedi cymryd mwy o ran ym mywyd y gymuned o ganlyniad i'w hymgysylltiad mewn gweithgareddau cerddorol.

- Mae llawer o wasanaethau wedi targedu disgyblion sydd dan anfantais ac wedi cynyddu eu lefelau cyfranogiad yn llwyddiannus.

- Mae llawer o awdurdodau wedi cynyddu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

---

[3] Fel a ddangoswyd ar dudalen 3, disgwyliwyd i'r CDC gefnogi:

- darpariaeth gwersi ac offerynnau mewn ysgolion;
- datblygu pyramid o weithgareddau a digwyddiadau cerddorol; a
- hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc o bob gallu.

- Mae llawer o wasanaethau'n bodloni anghenion pobl ifanc o bob oed yn llwyddiannus, yn enwedig trwy ddarpariaeth ar gyfer cerddoriaeth roc a cherddoriaeth o ddiwylliannau eraill.

- Mae o leiaf un AALl hyd yn hyn wedi targedu grwpiau lle nad oes digon o gynrychiolaeth o ddisgyblion, er enghraifft, y rheiny o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ac mae wedi cynyddu eu lefelau cyfranogiad yn llwyddiannus.

- Mae'r gostyngiad mewn cyllid yn y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith andwyol ar ystod y gwersi a'r gweithgareddau cerddorol y gall gwasanaethau eu darparu.

- Mae llawer o wasanaethau cerddoriaeth yn wynebu dyfodol ansicr oherwydd bob blwyddyn rhaid iddynt sicrhau cymorth o'r newydd gan y cyngor ar gyfer eu cyllid, mewn cystadleuaeth â blaenoriaethau lleol eraill.

- Dim ond rhai AALlau sydd wedi buddsoddi adnoddau CDC mewn ffyrdd a fydd yn sicrhau etifeddiaeth gynaliadwy.

Defnyddio cyllid

17 Mae awdurdodau lleol wedi gwario'r cyllid CDC ychwanegol yn briodol wrth gefnogi ystod o wasanaethau cerddoriaeth. Gwariwyd y rhan fwyaf o'r cyllid CDC o bell ffordd ar ddarparu gwersi ar offerynnau cerdd ac ar brynu offerynnau cerdd.

18 Mae'r holl awdurdodau wedi cynyddu niferoedd eu staff addysgu cerddoriaeth arbenigol. Mae llawer wedi darparu athrawon mewn meysydd lle nad oedd unrhyw ddarpariaeth cyn y CDC, yn enwedig gwersi lleisiol, gwersi offerynnau taro a gitâr, a cherddoriaeth roc a phop. Mewn llawer o awdurdodau, bu cynnydd yn nifer yr athrawon telyn. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau wedi darparu cymorth cwricwlwm mewn ysgolion cynradd, er enghraifft, trwy ddarparu ymgynghorydd cwricwlwm cerddoriaeth. Mae llawer o'r prosiectau a sefydlwyd trwy'r cyllid wedi cynnwys dod â darparwyr arbenigol i mewn i weithio gyda disgyblion mewn ysgolion cynradd. Mae hyn wedi gwella medrau cerddorol a hyder athrawon dosbarth mewn ysgolion cynradd.

19 Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr offerynnau cerdd a ddarperir ar gyfer disgyblion a phobl ifanc ym mhob awdurdod. Mae awdurdodau mwy wedi gallu cynyddu nifer yr offerynnau ac ymestyn ystod yr offerynnau sydd ar gael i ddisgyblion, yn aml gan gyflwyno offerynnau o ddiwylliannau cerddorol eraill. Nifer gymharol fach o adnoddau offerynnol oedd gan rai awdurdodau llai yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol. Mae'r awdurdodau hyn wedi cyfuno ac ymestyn eu cyflenwad presennol o offerynnau cerddorfa ac offerynnau band traddodiadol.

20 Mae awdurdodau a'u gwasanaethau cerddoriaeth wedi gallu cynyddu ystod y ddarpariaeth a gynigir ganddynt. Mae ystod y gweithgareddau cerddorol a ddarperir gan y gwasanaethau wedi cynyddu'n sylweddol mewn AALlau mwy. Mae awdurdodau llai neu'r rheiny sydd â lefelau mwy sylfaenol o ddarpariaeth ar ddechrau'r CDC wedi cyfuno ystod lai o weithgareddau. O'i ystyried yn ei gyfanrwydd, mae'r cynnydd yn yr ystod o ddarpariaeth ledled Cymru yn cynnwys:

- gwersi lleisiol;
- gwersi ar gyfer disgyblion iau;
- argaeledd a mynediad at offerynnau drutach fel offerynnau brwynen ddwbl[4], offerynnau nodau-bas, cyrn Ffrengig, offerynnau taro mawr, syntheseiswyr ac offer technoleg cerddoriaeth arall;
- gwersi telyn;
- gwersi ar gitâr glasurol a gitâr roc;
- darpariaeth cerddoriaeth Geltaidd;

[4] Offerynnau o 'deuluoedd' yr obo a'r basŵn.

- offerynnau a gwersi ar gyfer datblygu cerddoriaeth o wahanol ddiwylliannau;
- darpariaeth i gefnogi grwpiau sydd dan anfantais a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; a
- digwyddiadau arbennig.

Canu

21 Bu gwersi lleisiol yn flaenoriaeth mewn llawer o awdurdodau. Mae rhai awdurdodau wedi darparu tiwtoriaid canu arbenigol sy'n ymweld ag ysgolion i addysgu techneg canu a datblygu gwaith corawl. Mae'r tiwtoriaid hyn hefyd yn cefnogi athrawon dosbarth i'w helpu i ddatblygu canu yn eu hysgol eu hunain. Mewn un ysgol sy'n gwasanaethu cymoedd De Cymru, mae'r gwasanaeth cerddoriaeth wedi targedu ysgolion mewn ardaloedd sydd dan anfantais yn gymdeithasol ac yn economaidd, neu sydd wedi'u lleoli yn eithaf pell oddi wrth ganolfannau cerddoriaeth, i sicrhau bod disgyblion a phobl ifanc o'r ardaloedd hyn yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol. Mewn awdurdod yng Ngogledd Cymru, mae'r CDC wedi cefnogi ystod o brosiectau a gwersi lleisiol a chorawl sydd wedi cynyddu cyfranogiad pobl ifanc mewn canu corawl ac unigol yn fawr. Mae'r awdurdod yn adrodd, yn ystod cyfnod y cyllid, bod tua 12,000 o ddisgyblion a phobl ifanc wedi cymryd rhan mewn corau a chyngherddau a berfformir yn y gymuned. Mae hyn yn gynnydd sylweddol yn y niferoedd a oedd yn cymryd rhan cyn CDC.

Gwersi ar gyfer disgyblion iau

22 Fel rhan o'u strategaeth i godi safonau trwy gynnwys disgyblion pan fyddant yn iau, mae llawer o awdurdodau wedi buddsoddi mewn ystod o offerynnau bach a gynlluniwyd yn arbennig – y cyfeirir atynt yn aml fel 'offerynnau bychan'. Mae'r rhain yn cynnwys soddgrythau a basau dwbl, cyrn Ffrengig a baswnau 'bychan'.

Ymestyn ystod y gwersi offerynnol

23 Mae llawer o awdurdodau wedi cynyddu'r ystod o offerynnau cerdd y darperir gwersi arnynt. Rhoddir rhagor o fanylion yn 'Cyflenwadau o offerynnau cerdd' yn yr adran nesaf (Effaith y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth).

Digwyddiadau arbennig

24 Mae pob awdurdod a gwasanaeth cerddoriaeth yn cyflwyno cyngherddau o gerddoriaeth offerynnol a chorawl yn rheolaidd, a chânt gefnogaeth dda gan rieni a'r gymuned yn gyffredinol. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau hefyd yn cynnal digwyddiadau a phrosiectau 'ar eu pen eu hunain' sy'n adlewyrchu ystod ac amrywiaeth gweithgareddau cerddorol y mae pobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt. Mae sawl awdurdod yn cynnal gwyliau roc a phop sy'n denu cefnogaeth ar draws y gymuned, ac sydd weithiau'n cynnwys cerddorion ifanc o wledydd eraill yn Ewrop. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau wedi darparu gweithdai cerddoriaeth, er enghraifft, mewn cerddoriaeth jas a roc, prosiectau cerddoriaeth electronig, cerddoriaeth Geltaidd a cherddoriaeth o ddiwylliannau eraill. Bu prosiectau hefyd sy'n galluogi disgyblion a phobl ifanc i gael profiad o weithio gyda pherfformwyr a chyfansoddwyr

proffesiynol, er enghraifft, mewn prosiectau opera a dosbarthiadau meistr. Caiff y cyngherddau a'r prosiectau hyn le amlwg yn aml mewn gwyliau a chystadlaethau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r cyfranogiad hwn yn cyfoethogi profiad a mwynhad pobl ifanc o greu cerddoriaeth yn y gymuned ymhellach. Mae hefyd yn codi eu hymwybyddiaeth am y safonau perfformio y gallent fod yn ymgeisio tuag atynt, ac y gallent eu cyrraedd yn gynyddol.

Effaith y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth

25 Bu effeithiau tymor byr y CDC yn sylweddol. Mae'r cyfleoedd y trefnwyd eu bod ar gael gan y cyllid ychwanegol wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau cerddorol ac ansawdd y ddarpariaeth ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r effeithiau tymor canolig a thymor hir yn debygol o ddibynnu i raddau helaeth ar barhad y cyllid gan AALlau.

Niferoedd cynyddol

26 Yn y tymor byr, mae nifer y disgyblion a'r bobl ifanc sy'n cael darpariaeth cerddoriaeth ym mhob AALl wedi cynyddu'n sylweddol. Ym mis Chwefror 2005, cynhaliodd Cymdeithas Addysg Gerdd Awdurdodau Cymru (CAGAC) adolygiad meintiol o effaith y CDC yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan bob AALl. Anfonodd CAGAC gopïau o'r adolygiad at Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Estyn. Dangosodd yr adolygiad, fod tua 30,000 o bobl ifanc wedi cael mynediad at ddarpariaeth cerddoriaeth reolaidd na fyddent wedi cael mynediad ati fel arall, trwy'r CDC. Bu 38,000 arall yn gysylltiedig â phrosiectau fel gweithdai, prosiectau arbennig a dosbarthiadau meistr.

27 Mewn un awdurdod sy'n gwasanaethu cymoedd De Cymru, cynyddodd nifer y disgyblion a gafodd wersi yn sylweddol rhwng 1998-1999 a 2002-2003. Cynyddodd cyfran y boblogaeth ysgol a gafodd wersi arbenigol mewn ysgolion cynradd o 6.7% i 27.6%, ac mewn ysgolion uwchradd o 8.5% i 10.4%. Roedd hwn yn gynnydd cyffredinol o 7.5% i 20% o'r boblogaeth ysgol. Mewn awdurdod arall sy'n gwasanaethu ardal wledig, cynyddodd nifer y disgyblion a gafodd wersi cerddoriaeth yn ystod cyfnod y CDC o 3,300 i 7,900, sef cynnydd o 12% o'r boblogaeth ysgol i 28%. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y staff dysgu cyfwerth ag amser llawn yn yr awdurdod hwn o 26 i 35. Mewn un awdurdod yng Ngogledd Cymru, yn ystod cyfnod y CDC, cynyddodd yr amser gwersi cerddoriaeth 25% a chynyddodd niferoedd y disgyblion 40%.

Cyflenwadau o offerynnau cerdd

28 Dangosodd adolygiad CAGAC mai cyfanswm nifer yr offerynnau cerdd newydd a brynwyd yn ystod cyfnod cyllid y CDC oedd 12,554. Roedd yr ystod eang o offerynnau newydd yn cynnwys:

- offerynnau cerddorfa a band pres mwy a drutach;
- offerynnau roc a jas;
- offerynnau sy'n ofynnol ar gyfer ensembles cerddoriaeth fyd; ac
- allweddellau ac offer i gefnogi technoleg cerddoriaeth.

29 Mae mwy o awdurdodau wedi darparu mwy o offerynnau brwynen ddwbl, offerynnau bas a chyrn Ffrengig (y cyfeirir atynt ar lafar fel offerynnau sy'n 'rhywogaeth mewn perygl') yn ogystal â thelynau, offerynnau electronig ac offerynnau taro mwy. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau wedi darparu offerynnau roc a phop fel gitarau trydan, gitarau bas, syntheseiswyr a chitiau drwm.

30 Mae rhai awdurdodau mwy, ac awdurdodau sy'n defnyddio'r un gwasanaeth cerddoriaeth allanol, wedi darparu offerynnau o ddiwylliannau cerddorol eraill fel drymiau Affricanaidd, drymiau Asiaidd ac offerynnau taro eraill. Mae sawl awdurdod wedi buddsoddi'n sylweddol mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, technoleg cerddoriaeth a chyfleusterau recordio sain i gefnogi ystod eang o weithgareddau cerddorol.

Disgyblion iau

31 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, mae darpariaeth gynyddol wedi galluogi disgyblion i gael gwersi pan fyddant yn iau. Yn ogystal â darparu gwersi offerynnol a lleisiol arbenigol ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2, mae rhai awdurdodau wedi ymestyn addysg cerddoriaeth arbenigol a gweithgareddau cefnogi cerddoriaeth i ddisgyblion yn y dosbarthiadau meithrin, Derbyn a chyfnod allweddol 1.

Disgyblion sydd dan anfantais a grwpiau sy'n agored i niwed

32 Mae llawer o wasanaethau wedi targedu disgyblion sydd dan anfantais ac wedi cynyddu eu lefelau cyfranogiad yn llwyddiannus. Nododd un awdurdod yng Ngogledd Cymru bedwar maes blaenoriaeth fel rhan o'i ffocws ar ymestyn cyfle cerddorol i ddisgyblion o ardaloedd sydd â dangosyddion lefel tlodi uchel, disgyblion mewn ardaloedd o amddifadedd gwledig, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a phlant y gofelir amdanynt. Mae sawl awdurdod yn darparu cludiant am ddim, er enghraifft, ar gyfer disgyblion mewn ardaloedd gwledig neu'r rheiny nad ydynt yn byw yn agos at ganolfannau cerddoriaeth. Hyd yma, mae un AALl trefol mawr wedi targedu grwpiau o ddisgyblion wedi'u tangynrychioli, er enghraifft, y rheiny o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ac maent wedi cynyddu lefelau eu cyfranogiad yn llwyddiannus.

Disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

33 Mae llawer o awdurdodau wedi ehangu cwmpas eu darpariaeth ac wedi cynyddu mynediad at wersi a chyfranogiad mewn cerddoriaeth, yn enwedig ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau corfforol. Er enghraifft, mewn un awdurdod sy'n gwasanaethu cymoedd De Cymru, mae athrawon cerddoriaeth peripatetig yn gweithio'n effeithiol fel tîm gyda staff a disgyblion ysgol arbennig yr awdurdod. Mae hyn yn gwella profiadau'r disgyblion mewn cerddoriaeth ac yn y celfyddydau eraill yn fawr, ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at y safonau uchel a gyflawnir ganddynt. Mae awdurdod arall sy'n gwasanaethu ardal drefol fawr yn darparu ystod o weithgareddau cerddorol ym mhob un o'i ysgolion arbennig. Mae'r ddarpariaeth yn amrywiol ac wedi'i chydweddu'n addas ag anghenion ac anawsterau penodol disgyblion.

Ystod ehangach o gerddoriaeth

34 Mae llawer o wasanaethau yn bodloni anghenion pobl ifanc o oed a chefndiroedd amrywiol, yn enwedig trwy ddarpariaeth ar gyfer cerddoriaeth jas a roc a cherddoriaeth o ddiwylliannau eraill. Mae llawer o awdurdodau'n cytuno bod darpariaeth o'r math hwn wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth ymgysylltu pobl ifanc sydd â llai o ddiddordeb mewn creu cerddoriaeth 'glasurol' neu fathau mwy

traddodiadol o greu cerddoriaeth. Mae llawer o awdurdodau, ac yn enwedig yr awdurdodau mwy a'r rheiny a wasanaethir gan wasanaethau cerddoriaeth mawr, yn cynnig ystod eang o weithgareddau sy'n addas ar gyfer gwahanol ddiddordebau cerddorol ac anghenion disgyblion a phobl ifanc. Mae yna lawer o achosion o ddisgyblion a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau. Er enghraifft, gallai disgyblion sy'n chwarae offerynnau berfformio mewn cerddorfa neu fand pres, a chwarae offeryn mewn band roc hefyd. Gallai disgyblion y mae eu prif ddiddordeb mewn canu corawl, hefyd ganu'n unigol mewn gwahanol arddulliau fel jas neu bop, a hefyd chwarae offeryn cerddorfa.

Y dimensiwn cymunedol

35 Mae'r cynnydd yng nghwmpas ac amrywiaeth y gweithgareddau cerddorol sy'n deillio o'r CDC wedi cael effaith sylweddol ar gymunedau ledled Cymru. Mae rhieni a ffrindiau'r disgyblion a'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn cerddoriaeth yn dangos ymrwymiad gwych wrth gefnogi eu plant. Mae'r ymrwymiad hwn yn aml yn cynnwys cefnogi dysgwyr ifanc wrth iddynt ymarfer cerddoriaeth gartref yn rheolaidd, cludo pobl ifanc i ganolfannau cerdd a lleoliadau cyngerdd y tu allan i oriau ysgol, a mynychu eu cyngherddau fel aelodau o'r gynulleidfa. Mewn sawl un o'r sesiynau hyn, mwynhaodd rhieni a ffrindiau arsylwi cynnydd eu plant yn ystod ymarfer. Mewn un ymarfer côr, cynorthwyodd rhieni a ffrindiau'r tiwtoriaid i drefnu'r man ymarfer a llenwi'r gofrestr presenoldeb.

36 Mewn awdurdod sy'n gwasanaethu cymoedd De Cymru, mae'r CDC wedi cefnogi adfywio gweithgareddau cerddorol. Yn y ganolfan gerddoriaeth ardal sy'n cynnal ystod eang o weithgareddau offerynnol ar ôl yr ysgol, mae un o'r sawl grŵp pres yn cynnwys offerynwyr o bentref oedd â band pres llewyrchus ar un adeg. Daeth y band i ben rai blynyddoedd yn ôl, ond i bob pwrpas mae'r grŵp hwn gyfystyr ag ail-greu'r band. Cyn löwr yw'r tiwtor a fu'n aelod o'r band gwreiddiol. Mae gan y tiwtor ac aelodau o'r grŵp ymdeimlad gwych o falchder yn eu treftadaeth gerddorol, ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfle i ailsefydlu eu band lleol yn fawr. Rhennir y balchder hwn mewn traddodiad lleol gan y gymuned ehangach.

Mynediad lleol

37 Mewn awdurdod sy'n gwasanaethu cymoedd De Cymru, rhoddodd y CDC arian i greu canolfan gerddoriaeth leol fel nad oedd yn rhaid i ddysgwyr ifanc bellach deithio i ganolfan mewn awdurdod cyfagos a wasanaethir gan yr un gwasanaeth cerddoriaeth. O ganlyniad, mae llawer mwy o bobl ifanc nawr yn cymryd rhan mewn ystod o grwpiau offerynnol.

Monitro ac arfarnu

38 Ym mhob awdurdod, mae trefniadau priodol ar gyfer monitro ac arfarnu defnydd ac effaith y cyllid. Cynhelir y monitro o ddydd i ddydd gan swyddogion yng ngwasanaeth cerddoriaeth yr awdurdod. Mewn llawer o achosion, mae penaethiaid gwasanaeth a chydlynwyr tiwtor yn addysgu ac yn cyfarwyddo grwpiau lleisiol ac offerynnol, yn ogystal â'u dyletswyddau rheoli. Maent felly mewn sefyllfa dda i fonitro safonau a darpariaeth. Ym mhob awdurdod, trefnir cyngherddau cyhoeddus rheolaidd sy'n dangos canlyniadau darpariaeth y CDC. Mae llawer o awdurdodau'n

cynhyrchu recordiadau CD a DVD o gyngherddau a digwyddiadau i ddarparu rhagor o dystiolaeth o'r safonau cerddorol uchel a gyflawnir gan ddisgyblion.

39 Mae'r holl awdurdodau'n darparu adolygiad blynyddol o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Yn ystod cyfnod y CDC, roedd yn ofynnol i awdurdodau roi gwybodaeth am eu cynnydd yn erbyn targedau canlyniadau lleol cytûn fel rhan o'u cynlluniau gwariant GCAH/CYG. Yn gyffredinol, mae'r data hwn yn rhoi tystiolaeth gywir o effaith a chanlyniadau cyllid y CDC, o ran niferoedd y disgyblion a'r ensembles, ac ystod y ddarpariaeth sydd ar gael. Mae llawer o awdurdodau hefyd yn monitro, ac yn gallu dangos, gwelliannau mewn safonau gan ddefnyddio canlyniadau arholiadau allanol, fel arholiadau theori ac ymarferol Bwrdd Cysylltiedig yr Ysgolion Cerdd Brenhinol. Gall awdurdodau ddangos cysylltiadau rhwng gweithgareddau a ariennir gan y CDC a safonau gwell mewn cerddoriaeth yn adroddiadau arolygu Estyn.

40 Mae awdurdodau wedi defnyddio'r arfarniadau hyn i wneud newidiadau i ddarpariaeth y canfuwyd bod ganddi ddiffygion, neu i ddod â'r ddarpariaeth i ben. Ychydig iawn o weithgareddau CDC oedd â gwendidau, ac ymdriniwyd â phob un o'r rhain yn effeithiol.

Effaith y CDC yn y tymor hir

41 Trosglwyddwyd cyllid CDC i GCR o 2005-2006 ymlaen a phennwyd y graddau y mae AALlau wedi gallu defnyddio'r cyllid hwn i gefnogi gwasanaethau cerddoriaeth yn ôl y flaenoriaeth y mae pob cyngor yn ei rhoi i'r gwasanaethau hyn mewn perthynas ag anghenion lleol eraill. Dim ond rhai awdurdodau sydd wedi llwyddo i gynnal eu darpariaeth cerddoriaeth ar lefelau sy'n agos at y lefelau hynny a oedd yn bodoli pan oedd cyllid y CDC ar ei anterth.

42 Bwriad y CDC oedd cefnogi ac ymestyn y cyfleoedd mewn cerddoriaeth sydd ar gael i bobl ifanc y tu allan i'r cwricwlwm, gan gynnwys cyfuno ac ehangu'r 'gweithgareddau pyramid' a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc o bob gallu. Defnyddiwyd y rhan fwyaf o bell o'r cyllid CDC yn briodol i ehangu cyfleoedd cerddorol i ystod ehangach o bobl ifanc, ac felly i gynyddu lefel y gwasanaeth a ddarperir. Ychydig iawn o ddewis fu gan wasanaethau cerddoriaeth mewn awdurdodau lleol lle mae lefelau'r cyllid wedi gostwng ers trosglwyddo cyllid i GCR ond lleihau lefel y gwasanaeth a chynnig ystod fwy cyfyng o wersi a gweithgareddau cysylltiedig.

43 Mae pob awdurdod wedi gwneud toriadau i'w darpariaeth gwasanaeth cerddoriaeth. Gwnaed y gostyngiadau mwyaf cyffredin mewn dau faes:

- nifer y tiwtoriaid arbenigol a gyflogir gan yr awdurdod, ac felly faint o amser addysgu sydd ar gyfer gweithgareddau cerddorol; a
- phrynu a chynnal offerynnau cerddorol.

44 Mae enghreifftiau o weithgareddau eraill sydd wedi dod i ben yn cynnwys:

- gwyliau cerddoriaeth fyd, a cherddoriaeth roc a phop mewn rhai awdurdodau;
- gŵyl flynyddol o greu cerddoriaeth sy'n cynnwys 1000 o bobl ifanc wedi'i chyflwyno mewn neuadd gyngherddau dinesig gan un gwasanaeth cerddoriaeth sy'n gwasanaethu cymysgedd o awdurdodau trefol ac awdurdodau cymoedd;
- gwersi canu mewn ysgolion cynradd mewn awdurdod a wnaeth gynnydd gwych wrth godi safonau perfformiad lleisiol; a
- darpariaeth well ar gyfer 100 o offerynwyr ifanc dawnus mewn cydweithrediad â choleg cerddoriaeth a wnaed gan wasanaeth cerddoriaeth sy'n gwasanaethu sawl awdurdod yn Ne Cymru.

45 Dim ond rhai AALlau sydd wedi buddsoddi adnoddau CDC mewn ffyrdd a fydd yn sicrhau etifeddiaeth gynaliadwy. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, cyfyngwyd cynaliadwyedd yn bennaf i gynyddu a chynnal y cyflenwad o offerynnau cerdd. Fodd bynnag, mae defnyddio'r cyflenwad cynyddol hwn yn dibynnu ar a all awdurdodau ddarparu digon o oriau gwersi i sicrhau defnydd parhaus o'r holl offerynnau.

46 Bu'n anodd cynnal ysgogiad llawer o brosiectau'r CDC, er bod yna rai enghreifftiau o awdurdodau sydd wedi llwyddo i wneud hyn. Mewn awdurdod dinesig mawr, mae'r ymgynghorydd cerddoriaeth wedi paratoi modiwl addysgu chwe wythnos ar gyfer drymio Affricanaidd, sy'n cynnwys cymorth clyweled ar PowerPoint. Bydd hyn yn galluogi staff ysgol i barhau i addysgu drymio heb i'r tiwtor arbenigol fod yn bresennol. Menter beilot yw hon, y gellid ei chyflwyno mewn gweithgareddau eraill, pe bai'n llwyddiannus. Yn yr un awdurdod, mae athrawon dosbarth yn bresennol ym mhob sesiwn ganu. Mae hyn yn galluogi'r athrawon i arsylwi arfer dda mewn addysgu a pherfformio y gallant ei hefelychu pan na fydd y tiwtor canu ar gael mwyach. Mewn grŵp o awdurdodau a wasanaethir gan un gwasanaeth cerddoriaeth, mae prosiect drymio wedi'i anelu at athrawon yn ogystal â disgyblion. Yn yr ysgolion hynny sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect, mae athrawon dosbarth yn adrodd y gellir cynnal y gweithgareddau yn llwyddiannus. Maent hefyd yn gwella creu cerddoriaeth yn y dosbarth yn fawr ac yn helpu athrawon nad ydynt yn rhai arbenigol i ennill medrau cerddorol a hyder.

Effaith y cyllid ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth

47 Lle mae darpariaeth cerddoriaeth wedi cynyddu, mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn adrodd ei bod wedi cael effaith gadarnhaol ar fywyd ac ethos ysgolion ac ar gyflawniad disgyblion, nid yn unig mewn cerddoriaeth, ond hefyd mewn gwaith arall ar draws y cwricwlwm.

48 Mae'r CDC wedi cyfrannu'n sylweddol at godi safonau cyflawniad a chyrhaeddiad y disgyblion a'r bobl ifanc hynny a oedd yn yr ysgol yn ystod cyfnod y cyllid.

49 Adlewyrchir y gwelliannau yn safonau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth mewn:

- disgyblion yn cyrraedd lefelau uwch o berfformiad ar yr adeg pan fyddant yn dechrau addysg uwchradd, oherwydd eu bod wedi dechrau gwersi pan oeddent yn iau;

- dadansoddiadau awdurdodau lleol o adroddiadau Estyn sy'n dangos safonau cyflawniad uwch mewn cerddoriaeth mewn ysgolion cynradd sydd wedi cael cymorth cwricwlwm wedi'i dargedu yng nghyfnodau allweddol 1 a 2;

- cynnydd o 25%, fel a adroddwyd gan CBAC, yn nifer y disgyblion sy'n ennill cymwysterau cerddorol mewn TGAU ers dechrau'r CDC;

- cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr sy'n dewis cerddoriaeth Safon UG (o 2001 i 2005) a cherddoriaeth Safon Uwch (o 1999 i 2005);

- y cynnydd sylweddol a adroddwyd gan awdurdodau lleol yn nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau ymarferol a theori gyda chyrff allanol fel Bwrdd Cysylltiedig yr Ysgolion Cerdd Brenhinol; a

- safonau perfformiad uwch yn y corau, y bandiau, y cerddorfeydd, y grwpiau jas a phop a gefnogwyd gan y CDC. Adlewyrchir hyn yn y safonau uchel iawn a gyflawnwyd gan ystod o ensembles ar lefel sirol uwch, Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru, a Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru.

50 Mae Atodiad 1 yn cynnwys astudiaethau achos o arfer dda mewn addysgu a dysgu cerddoriaeth sy'n amlygu'r amrywiaeth o weithgareddau a wnaed yn bosibl gan y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth.

Atodiad 1: Enghreifftiau o safonau a darpariaeth rhagorol

Fel rhan o gylch gorchwyl Estyn, ymwelodd arolygwyr ag ysgolion a chanolfannau cerddoriaeth i arolygu sampl gynrychioliadol o'r ystod o ddarpariaeth sydd ar gael. Roedd y sampl hon yn cynnwys addysgu grŵp bach a dosbarth cyfan mewn ysgolion, ac ymarferion ensemble offerynnol ac ymarferion côr a oedd yn digwydd y tu allan i oriau ysgol.

Yn y sesiynau a arolygwyd, roedd safonau cyflawniad o leiaf yn foddhaol, yn aml yn dda ac weithiau'n rhagorol.

Yn yr un modd, roedd ansawdd yr addysgu yn aml yn dda ac weithiau'n rhagorol. Mewn un sesiwn, roedd ansawdd yr addysgu yn anfoddhaol oherwydd gwendidau mewn rheoli a threfnu.

Sampl o'r gwaith gorau a arolygwyd fel rhan o'r arolwg hwn yw'r canlynol. Ariannwyd pob un o'r gweithgareddau a ddisgrifir isod gan CDC.

Mae disgyblion ac athrawon mewn ysgol gynradd wledig yn creu cerddoriaeth gyffrous gan ddefnyddio drymiau Affricanaidd

Mae un gwasanaeth cerddoriaeth sy'n gwasanaethu sawl awdurdod wedi darparu prosiect ar gyfer ysgolion sydd wedi'i anelu at ddatblygu medrau disgyblion ac athrawon mewn rhythm. Prosiect rhythm a drymio byd-eang yw 'Big Beat' ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 5 sy'n cynnwys tri gweithdy dwy awr ar gyfer disgyblion, dau weithdy ar gyfer athrawon, a gŵyl hanner diwrnod pan fydd ysgolion sy'n cymryd rhan yn perfformio gyda'i gilydd mewn cyngerdd derfynol. Arweinir y prosiect gan athro taro arbenigol sydd â llawer o arbenigedd a phrofiad mewn cerddoriaeth o wahanol ddiwylliannau.

Yn ystod eu hail sesiwn gweithdy yn y neuadd, dechreuodd disgyblion trwy atgyfnerthu medrau a ddatblygwyd yn y sesiwn flaenorol. Dangosodd disgyblion fedrau datblygedig mewn gwrando wrth berfformio patrymau rhythmig, caneuon â symudiadau a symudiadau dawns cydgysylltiedig. Fe wnaethant ymateb yn gyflym i ystod o awgrymiadau a chiwiau gan yr athro arbenigol. Ar un adeg yn y gweithdy, creodd disgyblion batrymau rhythmig cymhleth gan ddefnyddio ffyn a drymiau yn seiliedig ar eiriau, galwadau a phatrymau rhythmig i ddisgrifio ystod o anifeiliaid Affricanaidd. Yn rhan olaf y sesiwn, chwaraeodd y disgyblion ddrymiau Affricanaidd mewn perfformiad grŵp cyffrous oedd wedi'i reoli'n dda a oedd yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer chwarae'n fyrfyfyr. Roedd y safonau a gyflawnwyd yn y gwaith hwn yn ardderchog. Roedd cyflymder y gwaith a brwdfrydedd y disgyblion yn rhagorol. Ysgrifennodd un disgybl, mewn arfarniad o'r sesiwn, 'I orffen, fe wnaethon ni roi'r holl rythmau at ei gilydd. Roedd yn swnio fel petawn ni yn Affrica!'

Roedd y pennaeth a'r athro dosbarth yn canmol gwaith yr athro arbenigol yn fawr o ran yr effaith ar safonau gwaith disgyblion ac ar ddatblygiad proffesiynol athrawon. Adroddodd yr athrawes ddosbarth ei bod wedi ennill medrau a phrofiad gwerthfawr o weithio gyda disgyblion ar y prosiect. Mae'r ysgol yn parhau â gwaith tebyg mewn

perfformio a chyfansoddi i gyfoethogi profiad yr holl ddisgyblion yn yr ysgol yn yr ystafell ddosbarth ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae disgyblion dosbarth derbyn yn gwneud cynnydd ardderchog wrth chwarae offerynnau â llinynnol

Mewn ysgol fabanod, daeth 26 o ddisgyblion dosbarth Derbyn ynghyd yn y neuadd ar gyfer eu hail wers ar offerynnau llinynnol. Chwaraeodd ugain disgybl ffidil 'fechan', a chwaraeodd chwech ohonynt soddgrwth 'bychan'. Fe'u haddysgwyd gan ddau diwtor llinynnol arbenigol o'r gwasanaeth peripatetig ac fe'u cefnogwyd gan yr athro dosbarth a'r cynorthwyydd cymorth dysgu. Dechreuodd y disgyblion gydag ystod o weithgareddau cerddoriaeth a symud a ddatblygodd eu medrau gwrando. Fe wnaethant wrando'n astud ac ymateb yn brydlon i ystod o giwiau a symbyliadau cerddorol. Ar ôl yr 'ymarfer cynhesu' cychwynnol hwn, agorodd disgyblion eu casys offerynnau a pharatoi i chwarae. Roedd y gofal a'r sensitifrwydd a ddangoswyd gan y disgyblion ifanc iawn yn y dasg hon yn rhagorol. Rhoddodd tiwtoriaid ac athrawon gymorth ardderchog. Gafaelodd y disgyblion yn eu hofferynnau yn gywir, ac yn dilyn sesiwn ymarfer fer yn unigol, fe wnaethant lwyddo i chwarae pizzicato llinynnol agored unigol gyda'i gilydd fel grŵp gyda chywirdeb a rheolaeth dda. Ar ddiwedd y sesiwn, rhoddodd y disgyblion eu hofferynnau i'w cadw gyda'r un gofal a rheolaeth â'r hyn a ddangoswyd ganddynt trwy gydol y wers. Wrth iddynt ddychwelyd i'w hystafell ddosbarth, canodd y disgyblion 'Dydd Da i Chi' gyda thonyddiaeth a mynegiant da. Roedd yn amlwg bod disgyblion wedi mwynhau'r gweithgareddau hyn a'u bod yn edrych ymlaen gyda llawer o frwdfrydedd at y wers nesaf.

Hon yw'r ail flwyddyn y mae disgyblion yn y dosbarth Derbyn wedi dechrau chwarae offerynnau llinynnol. Adroddodd y pennaeth a'r athrawon dosbarth fod y profiad o ddysgu chwarae offeryn llinynnol wedi cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion a safonau cyflawniad ar draws y cwricwlwm cyfan. Yn benodol, dangosodd y disgyblion welliant canfyddadwy wrth ddatblygu eu cydlyniant corfforol a'u medrau gwrando, ac wrth ddod yn ddysgwyr sylwgar a hyderus.

Mae disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol a lluosog yn mwynhau ystod gyffrous o weithgareddau cerddorol gyda thiwtor cerddoriaeth arbenigol

Am y pum mlynedd diwethaf, cafodd disgyblion mewn ysgol arbennig fynediad at sesiynau cerddoriaeth gyda cherddor proffesiynol sydd â llawer o brofiad o weithio yn y gymuned. Mae'r tiwtor yn ymweld ar gyfer un sesiwn bob wythnos ac mae'n addysgu disgyblion ag ystod o anawsterau dysgu difrifol.

Mewn un wers, fe wnaeth grŵp o 10 disgybl sydd ag anableddau corfforol dwys gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau cerddorol gyda brwdfrydedd a mwynhad aruthrol. Defnyddiodd y tiwtor syntheseisydd ac amrywiaeth o offer technoleg cerddoriaeth gydag arbenigedd mawr i gefnogi disgyblion yn eu dysgu. Chwaraeodd y disgyblion ystod dda o offerynnau taro heb eu tiwnio yn hyderus, ac roedd y rhan fwyaf yn gallu cadw'r amseriad yn dda. Fe wnaethant ymateb yn gyflym i newidiadau mewn amseriad a naws, ac fe wnaethant ddangos sensitifrwydd at gryfder, ysgafnder a distawrwydd. Gwnaeth y tiwtor ddefnydd da iawn o sampler electronig i gefnogi medrau disgyblion wrth greu yn fyrfyfyr. Fe wnaeth disgyblion yn arbennig fwynhau chwarae allweddell y samplwyd eu llais a'u henw eu hunain arno. Hefyd,

defnyddiodd y tiwtor ystod ysgogol o effeithiau sain i gefnogi gemau, er enghraifft, taflu a dal pêl anweladwy, i ddatblygu cydlyniant ac ymateb disgyblion. Roedd cyflymder ac amrywiaeth y gweithgareddau yn rhagorol.

Siaradodd y pennaeth, yr athrawon a'r cynorthwywyr gofal yn frwdfrydig am effaith gadarnhaol y sesiynau cerddorol hyn ar ddysgu a chymhelliant disgyblion. Mae athrawon a chynorthwywyr gofal wedi mabwysiadu rhai o'r gweithgareddau ac wedi'u hymgorffori mewn arferion dyddiol i ysgogi ac atgyfnerthu dysgu.

Mae cantorion ifanc yn cyflawni safonau ardderchog yn eu hymarferion wythnosol ar ôl yr ysgol mewn canolfan gerddoriaeth leol

Mae gwasanaeth cerddoriaeth un awdurdod yn darparu ystod eang o weithgareddau cerddorol mewn sesiynau gyda'r nos yn ystod yr wythnos, gan gynnwys côr hŷn a chôr iau.

Yn ystod un sesiwn, roedd safon perfformiad côr merched hŷn yn ardderchog o dan gyfarwyddyd ymgynghorydd cerddoriaeth yr awdurdod. Yn ogystal â datblygu eu medrau canu yn y gwersi côr a chanu, caiff bron pob un o 65 aelod y côr wersi offerynnol gydag athrawon peripatetig y gwasanaeth hefyd.

Caiff y côr hŷn a'r côr sirol cymysg eu bwydo gan gôr iau cymysg sy'n cael ei hyfforddi gan ddau diwtor arbenigol.

Yn ymarfer y côr iau cymysg, cyflawnodd y disgyblion safonau perfformiad da iawn. Canodd aelodau'r côr gyda thonyddiaeth dda a mynegiant clir. Fe wnaethant fwynhau canu penillion heriol a rhan-ganeuon eraill yn arbennig a oedd yn cefnogi ac yn gwella'u medrau cerddorol cyffredinol.

Mae'r holl gorau wedi perfformio'n rheolaidd mewn cyngherddau sy'n cael cefnogaeth dda gan rieni a'r gymuned yn gyffredinol. Mae llawer o alw am y cantorion ifanc, ac maent yn perfformio'n rheolaidd mewn gwyliau cerdd ac ar y teledu. Pwysleisiodd yr ymgynghorydd cerddoriaeth fod safonau canu wedi codi'n sylweddol a bod niferoedd y cantorion wedi cynyddu o ganlyniad i'r cyllid ychwanegol. Yn benodol, mae ffurfio'r côr iau wedi creu parhad a dilyniant wrth sefydlu datblygiad safonau uchel o ran perfformiad a lefelau cyfranogiad cynyddol.

Mae cerddorion roc ifanc yn cyflawni safonau uchel wrth gyfansoddi, trefnu a pherfformio'u cyfansoddiadau eu hunain

Mewn ysgol uwchradd yng Ngorllewin Cymru, bu grŵp o ddisgyblion B10 yn ymarfer ac yn gwella'u cyfansoddiadau eu hunain gyda thiwtor gitâr roc arbenigol. Roedd disgyblion yn y grŵp yn chwarae'r trwmped, y trombôn, y gitâr, yr allweddellau, y gitâr bas a'r drymiau. Gwrandawodd y disgyblion yn astud ac fe wnaethant gynnal perfformiad ensemble yn gywir. Fe wnaethant ganmol eu perfformiad eu hunain yn drylwyr a gwnaethant arfarniadau sylwgar o sut y gellid gwella'r cyfansoddiadau. Fe wnaethant weithio'n bwrpasol a chydag aeddfedrwydd. Mae'r tiwtor yn gerddor proffesiynol gweithredol. Rhoddodd gymorth ardderchog ac anymwthiol. Roedd

cyfansoddiadau disgyblion yn ddiddorol yn gerddorol ac yn gyffrous i wrando arnynt. Roedd safonau'r perfformiad yn ardderchog.

Adroddodd pennaeth yr adran gerdd fod nifer y disgyblion sy'n dilyn TGAU wedi cynyddu'n fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf ers cyflwyno gwersi gitâr a roc a ariennir gan y CDC. Mae'r tiwtor roc/gitâr yn rhoi cymorth da iawn i ddisgyblion wrth baratoi eu perfformiad ensemble ar gyfer TGAU a Safon UG. Mae llawer o ddisgyblion yn berfformwyr da mewn arddulliau cerddoriaeth glasurol a roc.

Mae cerddorion roc ifanc yn ymarfer yn ystod sesiwn gyda'r nos mewn canolfan gerddoriaeth

Bu dau fand roc – band merched o'r chweched dosbarth, a band bechgyn o ddisgyblion B 11 yn ymarfer o dan gyfarwyddyd tiwtor sydd â phrofiad proffesiynol mewn cerddoriaeth roc. Cafodd y bandiau fynediad da at ystod o gyfleusterau ac offer recordio. Ymroddodd yr offerynwyr yn dda i wella'u cyfansoddiadau. Rhoddodd y tiwtor gymorth â ffocws da a gynorthwyodd yr offerynwyr i wella safonau eu perfformiad. Mae'r offerynwyr ifanc hyn, ac eraill sy'n gysylltiedig â'r ysgol roc a ddarperir gan y gwasanaeth cerddoriaeth, wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau 'RockFest' a drefnir gan y gwasanaeth cerddoriaeth. Mae hyn wedi galluogi disgyblion i gyfarfod a chwarae offerynnau ochr yn ochr â cherddorion ifanc mewn bandiau mor bell i ffwrdd ag Ewrop gyfandirol. Bu'r gweithgareddau hyn yn llwyddiannus wrth ymestyn cyfranogiad a mwynhad diwylliannol ar draws y gymuned gyfan.

Atodiad 2: Data o 'Making Music 2000' (Bwrdd Cysylltiedig yr Ysgolion Cerdd Brenhinol)

1 Chwarae offerynnau cerdd yn ôl gradd gymdeithasol (plant)

Dengys y ffigurau yn y tabl isod ganran y plant ym mhob gradd gymdeithasol a oedd yn chwarae offeryn cerdd yn ystod y blynyddoedd 1993 a 1999.

	1993	1999
AB	56%	47%
C1	51%	39%
C2	43%	42%
DE	35%	39%

Y graddau cymdeithasol yw'r rheiny a nodwyd yn y Diffiniadau Darllenyddiaeth Cenedlaethol, sef:

A Rheolaethol, gweinyddol neu broffesiynol uwch
B Rheolaethol, gweinyddol neu broffesiynol canolradd
C1 Goruchwyliwr neu glerigol a rheolaethol, gweinyddol neu broffesiynol iau
C2 Gweithiwr llaw medrus
D Gweithwyr llaw lled-fedrus ac anfedrus
E Pensiynwyr y wladwriaeth neu weddwon (dim enillydd arall), gweithwyr achlysurol neu weithwyr gradd isaf

2 Lle ceir gwersi/lle cafwyd gwersi (plant)

Dengys y ffigurau ganran y disgyblion a gafodd wersi cerddoriaeth ym mhob un o'r sefyllfaoedd a restrir yn y golofn ar yr ochr chwith.

	1993	1999
Yn yr ysgol	87%	79%
Athro preifat	21%	18%
Ysgol yn unig	78%	73%
Athro preifat yn unig	12%	10%
Ysgol ac athro preifat	9%	6%